

Patrymau

Trosolwg

Diben y gweithgaredd hwn yw ymchwilio i batrymau mewn caneuon, alawon syml, rhythmau ac mewn gwaith celf. Bydd disgyblion yn:

- Edrych ar batrymau ar gwiltiau Cymreig ac o fewn y gân 'Heno Heno'
- Creu patrymau melodig syml
- Canu'r gân 'Lliwiau'r Enfys' yna cyfansoddi a pherfformio synau cerddorol i gynrychioli lliwiau a phatrymau lliw
- Defnyddio enwau diodydd i greu rhythmau syml
- Cyfansoddi cerddoriaeth gan ddefnyddio gwaith gan Sara Moorhouse, yr artist o Gymru, fel symbyliad

Cyfoethogi

- Cyfleoedd i gydweithio â cherddorion, cyfansoddwyr, grwpiau cerddoriaeth cymunedau lleol, artistiaid, orielau celf, amgueddfeydd a chanolfannau celfyddydau.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh)

Datblygu Meddwl

Cwricwlwm Cymraeg

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Datblygiad mathemategol

Datblygiad Creadigol

Datblygiad Corfforol

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Adnoddau sy'n cael eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

Adnodd 1: geiriau Heno Heno

Adnodd 2: geiriau Lliwiau'r Enfys

Adnodd 3: Taflen Cyfansoddi Lliwiau

Adnodd 4: Patrymau Rhythm â thaflen Diodydd

Adnodd 5: Llun o 'Undulation/Oscillation 05' gan Sara Moorhouse

Adnoddau y mae angen sicrhau eu bod ar gael/Gwaith paratoi

- Llungopïau o daflenni perthnasol
- iPads neu offer recordio arall yn barod
- Casgliad o offerynnau
- Pensiliau lliw/pennau/creonau
- Dolenni gwe perthnasol wedi'u gosod yn barod

Tasg 1: Beth yw patrymau a ble y gallwn ni ddod o hyd iddyn nhw?	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh – yn cynnwys Llwybrau Dysgu
<p>Bydd y disgyblion yn trafod beth yw patrymau, a pha rai maen nhw'n eu hoffi. Byddan nhw'n ymchwilio i'r patrymau o'u cwmpas ac yn dysgu am batrymau a dilyniant mewn caneuon</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD - Ydych chi'n hoffi tynnu llun o batrymau? Beth yw patrwm? Oes gennych chi unrhyw siwmperi/crysau T/cas pensiliau /bagiau â phatrymau arnynt? Sut rai ydyn nhw? Pa batrymau sydd gennych yn y cartref (e.e. ar bapur wal, blancedi, teils)? ○ EDRYCH/GWERTHUSO – Dilynwch y ddolen isod. http://www.museumwales.ac.uk/articles/2009-04-17/The-Quilt-Collection/ <p>Sgrolwch i lawr i weld amrywiaeth o gwiltiau Cymreig a'u patrymau – pa un yw eich hoff batrwm cwilt a pham? Pa siapiau allwch chi eu gweld yn y patrymau? Beth sy'n digwydd i'r patrymau os ydych chi'n plygu'r blancedi yn hanner neu'n chwarteri? Dewiswch siapiau fel cylchoedd, sgwariau a thrionglau i wneud eich patrymau eich hun. <i>(Meddylwch am ddefnyddio siapiau hanner a chwarter, gall disgyblion fesur y siapiau ac ystyried gweithgareddau 3-5 a restrir isod mewn gweithgareddau pellach)</i></p>	<p>Gwahoddwch gyfansoddwr neu gerddor lleol i siarad am sut maen nhw'n defnyddio synau a phatrymau sy'n ailadrodd wrth gyfansoddi cerddoriaeth / gofynnwch iddyn nhw gynnal gweithdy ymarferol ar greu cerddoriaeth gyda phatrymau sy'n ailadrodd</p> <p>Cerdd Gymunedol Cymru http://communitymusicwales.co.uk/en/ Cerdd Cymru: http://www.cerddcymru.com/ Tŷ Cerdd http://tycerdd.org/about-us?diablo.lang=cym Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC: http://www.bbc.co.uk/bbcnow Opera Cenedlaethol Cymru: https://www.wno.org.uk/cy Sinfonia Cymru: http://sinfoniacymru.co.uk/ Live Music Now Cymru: http://www.livemusicnow.org.uk/wales</p> <p>Gwahoddwch fardd i weithio gyda'r disgyblion a chreu penillion a barddoniaeth sy'n defnyddio ailadrodd a phatrymau geiriau</p> <p>Llenyddiaeth Cymru:</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS1: mynegi barn LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: ymhelaethu ar eu syniadau LLG1: gwranddo ar eraill LLG2: ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: trafodaethau LLC2: cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a rhannu gwybodaeth i gwblhau tasg.</p> <p>Darllen DS2: defnyddio strategaethau darllen DS3: darllen yn gywir DS4: darllen ar goedd</p>

- **YMCHWILIO/TGCh** – Mewn grwpiau bach, bydd y disgyblion yn dod yn Dditectifs Patrymau, yn archwilio'r ystafell ddosbarth, adeiladau'r ysgol, ardaloedd tu allan ac yn tynnu lluniau (gan ddefnyddio iPads) o'r patrymau y byddan nhw'n eu darganfod. Yna bydd pawb yn rhannu eu canfyddiadau gyda'r dosbarth (gellid defnyddio'r patrymau hyn ar gyfer llyfr neu arddangosfa dosbarth)
- **DARLEN/CANU** – Dosbarthwch Adnodd 1 'Heno Heno'. Dysgwch y geiriau ar gyfer yr hwiangerdd Gymraeg hon, yna dilynwch y ddolen isod – (ewch ymlaen i **3mun 40eiliad**) – lle y gallwch wrando ar y dôn a chanu gyda'r gân <https://www.youtube.com/watch?v=83VHmexheVM>
- **TRAFOD** – Pam mae 'Heno Heno' yn gymharol hawdd ei dysgu? Ystyriwch y defnydd o ailadrodd. Allwch chi weld bod gan bob pennill ei batrwm ei hun? A all y dosbarth feddwl am unrhyw ganeuon eraill sy'n cynnwys ailadrodd a phatrymau?
- **CYFANSODDI** – Dewiswch un o'r cwiltiau Cymreig patrymog, gwahoddwch y disgyblion i ddewis offeryn – a allant gyfansoddi synau cerddorol i gynrychioli'r patrwm?

<http://www.literaturewales.org/rhestr-o-awduron/>
Cymdeithas Genedlaethol Awduron mewn Addysg
<http://www.nawe.co.uk/>

Cysylltwch ag artist tecstilïau i siarad am sut maent yn creu patrymau neu ewch i'ch oriel neu amgueddfa leol a chwiliwch am batrymau yn eu casgliadau.

Canolfan Grefft Rhuthun

Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange

Oriel Mission

Map Bocsgolau o Oriolau:
<http://www.bocsgolau.co.uk/dysgu/adnoddau-defnyddiol/map-celf-cymru/>

DS6: adnabod nodweddion testun a chwilio am gliwiau
DS8: Adnabod geiriau allweddol
DYD2: archwilio iaith yn y testun
DYD3: Gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth arall am y pwnc

Rhifedd

M.1: trosglwyddo sgiliau mathemategol
M.6: amcangyfrif
M.11. Ieithwedd fathemategol

Defnyddio sgiliau rhif

Rh8: canfod haneri a chwarteri

Defnyddio sgiliau mesur

M1: Cymharu a mesur gwrthrychau
M9: hanner tro a chwarter tro

Tasg 2: Cyfansoddi patrymau cerddorol gan ddefnyddio Allweddell Rithwir	Cydweithredu ac Adnoddau	FflIRh
<p>Bydd y disgyblion yn creu patrwm 4 nodyn syml ac yn ei ailadrodd i greu ostinato. Byddan nhw'n cyfuno syniadau i wneud dilyniannau cerddorol hirach.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ CANU – ‘Heno Heno’. Anogwch y plant i ganu’n ysgafn, yn rheoledig ac nid yn rhy gyflym fel bod eu canu yn gweddu i naws ac ysbryd yr hwiangerdd ○ TGCh - Dilynwch y ddolen isod i Allweddellau Rhithwir... http://www.bgfl.org/custom/resources_ftp/client_ftp/ks2/music/piano/ ○ CHWARAE/DYSGU... Chwaraewch 4 nodyn alaw ‘Heno Heno’ i’r plant – B D B D. Eglurwch fod hwn yn batrwm sy’n ailadrodd. Gwahoddwch y disgyblion i’w chwarae ○ CREU/CYFANSODDI – bydd pob disgybl yn dewis 4 nodyn ar gyfer eu patrwm eu hunain, e.e. AAAB...DCDB...CCFF...Anogwch y disgyblion i ailadrodd rhai nodau a dewis nodau nad ydyn nhw’n rhy bell oddi wrth ei gilydd fel ei bod yn haws iddyn nhw chwarae eu patrwm gyda rhywfaint o amseriad ○ CHWARAE – Gwahoddwch rai o’r disgyblion i chwarae eu halawon 4 nodyn ar yr Allweddell Rithwir, gan eu chwarae drosodd a throsodd er mwyn creu patrwm sy’n ailadrodd - neu ostinato 	<p>Cyfansoddwr lleol i weithio gyda’r dosbarth i gyfansoddi hwiangerdd wreiddiol/syml sy’n ailadrodd alaw (gweler dolenni ar gyfer tasg 1)</p> <p>Blwyddyn 6/arweinwyr digidol i weithio ochr yn ochr â disgyblion y Cyfnod Sylfaen er mwyn dangos sut i ddefnyddio GarageBand ar yr iPad i greu synau sy’n ailadrodd</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS1: mynegi barn LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: ymhelaethu ar eu syniadau LLG1: gwranddo ar eraill LLG2: ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: trafodaethau LLC2: cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a rhannu gwybodaeth i gwblhau tasg.</p> <p>Rhifedd M.1: trosglwyddo sgiliau rhifo</p>

- **YMESTYN Y PATRYMAU** – cyfunwch syniadau dau ddisgybl – gofynnwch i'r ddau sefyll wrth yr Allweddell Rithwir – a all y disgyblion amrywio eu halawon 4 nodyn yn ôl ac ymlaen gan greu alaw hirach gyda'i gilydd? Gwnewch ychydig o enghreifftiau o hyn (ar gyfer y disgyblion mwy abl, gallech ymestyn y gwaith hwn gan ddefnyddio glockenspiels neu offerynnau tebyg wedi'u tiwnio)
- **GWERTHUSO** – Pa ddau syniad oedd yn swnio orau gyda'i gilydd? Pam? Pa un oedd y mwyaf bachog?

Tasg 3: Patrymau Lliw	Cydweithredu ac Adnoddau	FfRhLI
<p>Y disgyblion i greu synau cerddorol sy'n cynrychioli lliwiau a'u perfformio mewn dilyniant/patrwm</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ DARLLEN/CANU – Gan ddefnyddio Taflen Adnodd 2 sy'n cynnwys y geiriau ar gyfer 'Lliwiau'r Enfys' darllenwch y geiriau Cymraeg a chanwch gyda'ch gilydd gan ddefnyddio'r clip fideo yn y ddolen isod... https://www.youtube.com/watch?v=sbazy2qO2RQ ○ TRAFOD – Sicrhewch fod gennych ystod eang o offerynnau'n barod (pren, metelig, crafu, taro, wedi'u tiwnio, heb eu tiwnio ac ati) Trafodwch y lliwiau yn 'Lliwiau'r Enfys' – pe bai'n rhaid iddyn nhw greu sŵn cerddorol ar gyfer COCH pa offeryn y bidden nhw'n ei ddewis, a sut y bidden nhw'n ei chwarae? Pe bai'n rhaid iddyn nhw greu cerddoriaeth ar gyfer MELYN a fydden nhw'n tapio, crafu, a fyddai'n sŵn meddal neu arw? A fyddech yn defnyddio offeryn pren neu fetelig? A fyddai'n uchel neu'n dawel? Sŵn hir neu fyr? Dangoswch beth fyddech chi'n ei wneud, gan esbonio pam. ○ CYFANSODDI/CREU – Bydd pob plentyn yn dewis offeryn. Gan weithio mewn parau, bydd un partner yn creu sŵn ar gyfer COCH, y llall ar gyfer MELYN. Anogwch y disgyblion i roi cynnig ar ffyrdd gwahanol o chwarae eu hofferyn gan weld beth sy'n gweithio orau. Anogwch nhw i ddefnyddio iaith gerddorol, e.e. uchel/tawel...synau hir/byr...synau uchel/isel...cyflym neu araf... 	<p>Y dosbarth i ddewis darn o gerddoriaeth y mae'n ei hoffi a gweithio gydag artist i greu paentiadau/neu un murlun mawr gan ddefnyddio lliwiau penodol sy'n adlewyrchu'r synau yn eu cerddoriaeth</p> <p>Cerddor i weithio gyda'r disgyblion i greu llun sŵn o'r enw 'Lliwiau'r Enfys'</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS1: mynegi barn LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: ymhelaethu ar eu syniadau LLG1: gwrando ar eraill LLG2: ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: trafodaethau LLC2: cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a rhannu gwybodaeth i gwblhau tasg.</p>

- | | | |
|---|--|--|
| <ul style="list-style-type: none">○ CHWARAE – Gan ddefnyddio Adnodd 3 ‘Cyfansoddi Lliwiau’ – bydd y disgyblion yn perfformio eu synau i Batrwm 1○ CYFANSODDI/CREU – Nawr bydd parau’n creu sŵn ar gyfer naill ai GWYRDD neu GLAS ac yna’n perfformio Patrwm 2. Gwahoddwch bartneriaid i ddangos eu gwaith i’r dosbarth. A wnaethant ddilyn y patrwm yn gywir? A oedd eu dewis o gerddoriaeth ar gyfer y lliwiau’n briodol?○ GWAITH ESTYNEDIG – Defnyddiwch yr adnodd ‘Colour Composing Blank’ a gadewch i’r disgyblion greu eu patrymau eu hunain, gan liwio’r sgwariau eu hunain a chyfansoddi eu synau eu hunain i gyd-fynd â nhw a’u hadlewyrchu. | | |
|---|--|--|

Tasg 4: Creu patrymau rhythmig	Cydweithredu ac Adnoddau	FfrhLI
<p>Bydd disgyblion yn clapio rhythmau syml gan ddefnyddio enw diodydd, ac yna'n defnyddio'r rhain i greu eu patrymau rhythmig eu hunain</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ CHWARAE – Clapiwch batrymau rhythmig syml a gofynnwch i'r dosbarth eu hailadrodd. Defnyddiwch gymysgedd o synau hir a byr – ydyn nhw'n gallu ailadrodd eich rhythmau'n gywir? ○ CHWARAE/TRAFOD – Clapiwch guriad cyson o 4 (1,2,3,4). Wrth wneud hyn, dywedwch TE...TE TE TE TE. Ailadroddwch hyn i guriad cyson gyda'r plant. Nesaf, gwnewch 2 glap byr gyda'i gilydd a dywedwch COFF-I...COFF-I COFF-I COFF-I. Unwaith eto, ailadroddwch hyd nes y gall pawb ei wneud yn gywir. Cyfrwch y sillafau yn enwau'r disgyblion a'r geiriau sy'n cael eu harddangos o gwmpas yr ystafell ddosbarth, yna clapiwch y rhythm. ○ CHWARAE PATRYMAU – Clapiwch/dywedwch gyfuniadau o'r ddau ddiod hyn i guriadau o 4 a gadewch i'r dosbarth ailadrodd y dilyniant e.e. TE TE TE TE...TE TE COFF-I TE...COFF-I COFF-I TE TE... ○ TRAFOD – Gallwn roi symbolau i'r diodydd hyn...TE = I...COFFI = Π Dangoswch daflen Adnodd 4 'Patrymau Rhythm gyda Diodydd'. Clapiwch a dywedwch bob patrwm 	<p>Trefnwch weithdy drymio er mwyn i'r disgyblion allu datblygu'r patrymau rhythmig syml maen nhw wedi bod yn eu defnyddio, e.e.</p> <p>http://www.phelpsmusic.com/main/african-drumming-workshops-south-wales/</p> <p>http://colindaimond.co.uk/north-wales-drum-workshops/</p> <p>http://balletnimba.org.uk/education/4583916707</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd</p> <p>LLS1: mynegi barn</p> <p>LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau</p> <p>LLS3: ymhelaethu ar eu syniadau</p> <p>LLS4: Siarad yn glywadwy</p> <p>LLG1: gwrando ar eraill</p> <p>LLG2: ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi</p> <p>LLG3: gofyn cwestiynau</p> <p>LLC1: trafodaethau</p> <p>LLC2: cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a rhannu gwybodaeth i gwblhau tasg.</p> <p>Darllen</p>

<p>ar y daflen gyda'ch gilydd yn gywir</p> <ul style="list-style-type: none">○ CREU – Mae ail dudalen y daflen adnodd yn wag. Argraffwch y daflen er mwyn i'r disgyblion greu eu patrymau te/coffi eu hunain gan weithio mewn paruau. Gallant ymarfer y rhain a'u chwarae i ffrind – a all y ffrind ddyfalu beth yw'r diodydd?○ GWAITH ESTYNEDIG – Gadewch i'r disgyblion ddewis offeryn ac ymarfer chwarae eu patrymau rhythm te/coffi arno.○ DAWNS Disgyblion i glapio rhythmau ar gyfer eu henwau eu hunain (e.e. TOM / LOW-RI - O-WEN). Edrychwch ar y clip o Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru'n perfformio Tuplet gan Alexander Ekman. http://www.ndcwales.co.uk/en/get-involved/learn/education-resources/ (sgroliwch i lawr i'r clip o'r enw 'Tuplet - Names section'). Edrychwch am batrymau a rhythmau a thrafodwch sut mae'r dawnsywyr yn dehongli eu henwau'n ddoniol drwy symudiadau.○ Mewn grwpiau bach, y disgyblion i ddyfeisio eu symudiadau byr eu hunain i gyd-fynd â'u henwau a'r nifer o guriadau sydd gan yr enw. Dywedwch eich enw wrth i chi symud. Rhowch eich enwau at ei gilydd i greu dilyniant fel grŵp. Rhannwch ac ymatebwch fel dosbarth.	<p>Edrychwch ar yr adnoddau ar wefan Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, yn enwedig y clip doniol o ddarn Alexander Ekman, Tuplet, a berfformir gan Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a'r pecynnau adnoddau ategol ar gyfer athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd (a ysgrifennwyd gan Luke Ganz) sy'n trafod y broses o wneud y gwaith a'r cwmni dawnsywyr.</p> <p>http://www.ndcwales.co.uk/en/get-involved/learn/education-resources/</p> <p>Gwahoddwch gwmni dawns cymunedol lleol i arwain gweithdy symud ar batrymau a/rhythm.</p> <p>http://www.communitydance.org.uk/international-event-2014.html (Hyper link to Artform specific resources page on Dance)</p>	<p>DS2: defnyddio strategaethau darllen ar gyfer seiniau a llythrennau DS3: darllen geiriau syml yn gywir DS4: darllen ar goedd DS6: adnabod nodweddion testun a chwilio am gliwiau DS8: Adnabod geiriau allweddol</p> <p>Rhifedd M.1: trosglwyddo sgiliau rhifo</p>
--	---	---

Tasg 5: Defnyddio celf fel symbyliad ar gyfer cyfansoddi cerddoriaeth	Cydweithredu ac Adnoddau	FflIRh
<p>Disgyblion i edrych ar luniau o gelf ceramig gan Sara Moorhouse, yr artist o Gymru, , a chreu cyfansoddiadau mewn ymateb iddynt</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ EDRYCH/TRAFOD/ARFARNU – Dilynwch y ddolen isod i weld enghreifftiau o waith celf ceramig gan Sara Moorhouse – siaradwch am y defnydd o batrymau yn ei gwaith. http://saramoorhouse.com/ ○ TRAFOD – Edrychwch ar Adnodd 5: ‘Undulation/Oscillation 05’ gan Sara Moorhouse...sylwch ar y lliwiau a ddefnyddir – oren, melyn, glas, gwyrdd, coch...sylwch ar y siapiau a’r patrymau (cychoedd, y chwyrliadau) a’r gwead llyfn ○ CYFANSODDI/CREU – Trefnwch y disgyblion yn grwpiau o 6 a rhowch offeryn i bawb. Penderfynwch gyda’ch gilydd sut y byddwch yn rhannu’r offerynnau. Dywedwch wrth bob grŵp eich bod am iddo greu darn o gerddoriaeth i gynrychioli gwaith Sara ‘Undulation/Oscillation 05’. Bydd pob disgybl yn dewis un o’r lliwiau o’r gwaith ac yn cyfansoddi sŵn i’w gynrychioli, gan adael i’r 6^{ed} disgybl greu synau chwyrlio. Anogwch nhw i ddefnyddio patrymau rhythm te/coffi, os yn briodol. Sut y byddan nhw’n perfformio eu darn? A allant roi strwythur iddo? Awgrymwch y dylent ddilyn y siâp o’r pen i’r gwaelod. (Gallai’r gerddoriaeth ddechrau gyda synau chwyrlio, yna ychwanegwch y sŵn oren, yna melyn, glas, gwyrdd ac yn olaf coch ar y gwaelod, fel bod pawb yn chwarae gyda’i gilydd ar y diwedd). 	<p>Cysylltwch â’ch oriel gelf/cwmni dawns cymunedol lleol i weld a allant ddod i arwain gweithdy ar batrymau yn eu gwaith. (hyper link to Artform specialist orgs in the Resources section for art and dance)</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS1: mynegi barn LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: ymhelaethu ar eu syniadau LLG1: gwrando ar eraill LLG2: ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: trafodaethau LLC2: cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a rhannu gwybodaeth i gwblhau tasg.</p>

<ul style="list-style-type: none">○ DAWNS – Gallech amrywio'r gweithgaredd uchod drwy ofyn i'r dosbarth ymateb i'r patrymau drwy ddawns (gan greu symudiadau gwahanol i adlewyrchu'r lliwiau – sut mae 'coch' yn ymddangos/pa symudiad sydd iddo?) a symud eu breichiau mewn cylchoedd, siapiau chwyrlio/troi/troelli i gyfleu patrymau powlen Sara).○ YMARFER/PERFFORMIO – Grwpiau i berfformio eu cerddoriaeth i'r dosbarth a'i recordio ar yr iPad. (Gallwch ychwanegu'r symudiadau dawns at y perfformiad hefyd).○ GWYLIO/ARFARNU – Edrychwch ar y perfformiadau gyda'ch gilydd. Gwaith pa grŵp oedd yn adlewyrchu gwaith Sara orau yn eu barn nhw? Trafodwch sut y gwnaethant ymdopi â'r tasgau cyfansoddi (a/neu symud). Beth wnaethant yn dda? Sut y gallent eu gwella ar gyfer y tro nesaf?		
--	--	--

Gweithgareddau eraill a awgrymir

1. Gwrandewch ar glipliau gan Ten Pieces wedi'u perfformio gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC <http://www.bbc.co.uk/programmes/p02c4vwr> - ceisiwch sylwi ar batrymau/themâu sy'n ailadrodd a thrafodwch pa ddarnau rydych yn eu hoffi orau a pham.
2. Chwaraewch gyda phatrymau y tu allan ar yr iard chwarae. Gallech ddefnyddio papur leinio, archwilio olion traed ac argraffu gyda deunyddiau naturiol. Arbrofwch â theganau plastig – e.e. loriau neu geir neu anifeiliaid fferm. Ewch â nhw am dro drwy osod eu holwynion/traed mewn paent. Gorchuddiwch hen deiars ceir â phaent a'u rholio! (Edrychwch ar Astudiaeth Achos Sir Gaerfyrddin ar draciau, llwybrau a chysgodion yn <http://www.engage.org/foundation-resources.aspx>)
3. Ymchwiliwch i batrymau mewn teils neu fosäig. Crëwch eich patrymau brithweithiog eich hun gan ddefnyddio creon neu bastel ar amrywiaeth o bapurau brithweithiog – neu defnyddiwch bapur â sgwariau ('papur mathemateg')
4. Gwnewch batrwm llun gyda rhifau a llythrennau ar daflen o bapur mawr gyda llawer o blant yn gweithio gyda'i gilydd. Os bydd gan bob plentyn lythyren neu rif i'w greu, gallant gael hwyl yn creu patrwm a gweld a oes unrhyw eiriau wedi ymddangos ar y diwedd.
5. I gael rhagor o syniadau ar gynllunio a chynnal prosiectau celfyddydau gweledol ar gyfer plant 3-7 oed, (mewn orielau celf ac yn yr ysgol) yn ogystal â gweithio gydag artistiaid, edrychwch ar 'How Red is Red?' yn <http://www.engage.org/foundation-resources.aspx>

Asesu mewn perthynas â'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd

Gall y dysgwyr arddangos nifer o elfennau ac agweddau ar y FflRh wrth iddynt wneud y gweithgaredd hwn. Rhestrir y prif feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y tablau isod.

Llythrennedd			
Llinyn	Elfen	Agwedd	
Llafaredd ar draws y cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	
		Gwranddo	
		Cydweithio a thrafod	
Darllen ar draws y cwricwlwm	Dod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio	Strategaethau darllen	
		Darllen a deall	
		Ymateb a dadansoddi	
Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	
		Strwythur a threfn	
	Ysgrifennu'n gywir	laith	
		Cystrawen; Atalnodi; Sillafu; Llawysgrifen	

Rhifedd		
Llinyn	Elfen	
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	
	Cynrychioli a chyfathrebu	
	Adolygu	
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau	
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb	
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig	
	Amcangyfrif a gwirio	
	Rheoli arian	
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd	
	Amser	
	Tymheredd	
	Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle	
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau	